

Diploma Lefel 3 Focus Awards mewn

# Atgyfeirio at Ymarfer Corff (RQF)

601/7916/8

FOCUS AWARDS

# Gwybodaeth Allweddol

Lefel: 3

Sector: Chwaraeon a Hamdden

Math o Gymhwyster: Galwedigaethol

Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 380

Gwerth y Credydau: 38

Oriau Dysgu dan Arweiniad: 242

Statws: Ar gael i ddysgwyr

Dulliau Asesu: Portffolio tystiolaeth

Isafswm oedran: 16 oed





Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Cynnwys

Gwybodaeth Allweddol ..... 2
Diben y Cymhwyster ..... 4
Ystod Oedran ..... 4
Cwmpas Daearyddol ..... 4
Gofynion Mynediad i Ddysgwyr ..... 4
Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig ..... 4
Dulliau Asesu ..... 5
Llwybrau Cynnydd ..... 5
Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol ..... 5
Strwythur y Cymhwyster ..... 6
Unedau ..... 7

# Diploma Lefel 3 Focus Awards mewn Atgyfeirio at Ymarfer Corff (RQF)

Rhif Cyfeirnod y Cymhwyster: 601/7916/8

Oriau Dysgu dan Arweiniad: 242

Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 380

Credydau: 38

## Diben y Cymhwyster:

Diben Diploma Lefel 3 Focus Awards mewn Atgyfeirio at Ymarfer Corff yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr o ran defnyddio egwyddorion anatomeg a ffisioleg, cyflyrau meddygol, ymarfer proffesiynol a maeth. Bydd dysgwyr yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gynllunio a hyfforddi rhaglenni addas ar gyfer cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i wneud ymarfer corff.

Mae Diploma Lefel 3 Focus Awards mewn Atgyfeirio at Ymarfer Corff (RQF) wedi'i anelu at y dysgwyr hynny sy'n gweithio yn y sector Ffitrwydd a Hamdden Egnïol ar hyn o bryd neu sy'n dymuno gweithio yn y sector hwnnw.

## Ystod Oedran:

Ceir mynediad yn ôl disgresiwn y ganolfan. Fodd bynnag, dylai dysgwyr fod yn 16 oed i ymgymryd â'r cymhwyster hwn.

## Cwmpas Daearyddol:

Mae'r cymhwyster hwn ar gael yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Gofynion Mynediad i Ddysgwyr:

Rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill cymhwyster rhagofynnol naill ai mewn Hyfforddi Ffitrwydd (wedi'i leoli yn y gampfa, ymarfer corff i gerddoriaeth neu yn y dŵr) ar Lefel 2 neu Hyfforddiant Personol ar Lefel 3.



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

## Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig:

Cyfeiriwch at 'Polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig' Focus Awards. Mae copi ar gael i'w lawrlwytho o wefan Focus Awards yn yr url canlynol: https://www.focusawards.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/Reasonable-Adjustments.pdf

## Dulliau Asesu:

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu'n fewnol. Rhaid i bob dysgwr greu portffolio tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi cyflawni'r holl ddeilliannau dysgu a'r meini prawf asesu sy'n gysylltiedig â phob uned.

Gallai'r prif ddarnau o dystiolaeth ar gyfer y portffolio gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Arsylwadau'r asesydd
- Tystiolaeth tystion
- Cynnyrch dysgwr
- Taflenni gwaith
- Aseiniadau/prosiectau/adroddiadau
- Cofnod o gwestiynu llafar ac ysgrifenedig
- Adroddiadau dysgwyr a chymheiriaid
- Cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol (RPL)

## Llwybrau Cynnydd:

Gall dysgwyr sydd am symud ymlaen o'r cymhwyster hwn ddatblygu eu sgiliau ymhellach drwy'r canlynol:

- Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards mewn Datblygu Strategaethau Gweithgarwch Corfforol a Rheoli Pwysau ar gyfer Cleientiaid Diabetig (RQF)
- Tystysgrif Lefel 4 Focus Awrds mewn Datblygu Strategaethau Gweithgarwch Corfforol a Rheoli Pwysau ar gyfer Cleientiaid Gordew (RQF)
- Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards mewn Darparu Gweithgarwch Corfforol i Unigolion â Chyflyrau Iechyd Meddwl (RQF)

## Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol:

- https://focusawards.org.uk/supportingmaterials
- https://ofqual.gov.uk

## Strwythur y Cymhwyster:

Er mwyn cwblhau Diploma Lefel 3 Focus Awards mewn Atgyfeirio at Ymarfer Corff (RQF) yn llwyddiannus, rhaid i ddysgwyr ennill 38 o gredydau o 6 uned orfodol.

## Unedau Gorfodol:

| Teitl yr Uned | Cyfeirnod yr Uned | Lefel | Credydau | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio rhaglenni atgyfeirio at ymarfer corff gyda chleifion | D/503/7494 | 3 | 8 | 52 |
| Deall Cyflyrau Meddygol ar gyfer Atgyfeirio at Ymarfer Corff | R/503/7492 | 4 | 7 | 35 |
| Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Hyfforddwyr Atgyfeirio at Ymarfer Corff | Y/503/7493 | 3 | 2 | 14 |
| Hyfforddi ymarfer corff gyda chleifion sydd wedi'u hatgyfeirio | L/503/7491 | 3 | 9 | 58 |
| Anatomeg a ffisioleg ar gyfer ymarfer corff ac iechyd | A/600/9051 | 3 | 6 | 43 |
| Cymhwyso egwyddorion maeth i raglen gweithgarwch corfforol | L/600/9054 | 3 | 6 | 40 |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Unedau

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Cynllunio rhaglenni atgyfeirio at ymarfer corff gyda chleifion |
| Rhif yr Uned: | D/503/7494 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 52 |
| Credydau: | 8 |

Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr o sut i baratoi ar gyfer rhaglenni atgyfeirio at ymarfer corff a phwysigrwydd newid ymddygiad tymor hir i gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i wneud ymarfer corff.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall sut i baratoi ar gyfer rhaglenni atgyfeirio at ymarfer corff | 1.1 | Disgrifio amrywiaeth o adnoddau sydd eu hangen i ddarparu rhaglenni atgyfeirio at ymarfer corff ar gyfer unigolion a grwpiau, gan gynnwys:<br>• Yr amgylchedd ar gyfer y sesiwn<br>• Cyfarpar cludadwy<br>• Cyfarpar sefydlog |
| | | 1.2 | Esbonio sut i weithio mewn amgylcheddau nad ydynt wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer ymarfer corff/gweithgarwch corfforol |
| 2 | Deall pwysigrwydd newid ymddygiad tymor hir i gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i wneud ymarfer corff | 2.1 | Esbonio pam mae'n bwysig i gleifion ddeall manteision iechyd rhaglenni atgyfeirio at ymarfer corff strwythuredig |
| | | 2.2 | Esbonio pam mae'n bwysig i hyfforddwr atgyfeirio at ymarfer corff gydweithio â chleifion i gytuno ar nodau, amcanion, rhaglenni ac addasiadau |
| | | 2.3 | Esbonio pwysigrwydd newid ymddygiad tymor hir wrth ddatblygu iechyd a ffitrwydd cleifion |
| | | 2.4 | Esbonio sut i annog cleifion i ymrwymo i newid yn y tymor hir |
| 3 | Deall egwyddorion casglu gwybodaeth i gynllunio rhaglen atgyfeirio at ymarfer corff | 3.1 | Esbonio egwyddorion cydsyniad ar sail gwybodaeth |
| | | 3.2 | Crynhoi'r wybodaeth am gleifion y dylid ei chasglu wrth ddylunio rhaglen atgyfeirio at ymarfer corff |
| | | 3.3 | Esbonio sut i ddewis y dulliau mwyaf priodol o gasglu gwybodaeth am gleifion yn ôl anghenion y claf |
| | | 3.4 | Esbonio sut i ddehongli gwybodaeth sydd wedi'i chasglu gan y claf er mwyn nodi ei anghenion a'i nodau |
| | | 3.5 | Esbonio goblygiadau cyfreithiol a moesegol casglu gwybodaeth am gleifion |
| 4 | Deall sut i nodi nodau ffitrwydd sy'n gysylltiedig ag iechyd gyda chleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff | 4.1 | Esbonio sut i nodi nodau tymor byr, tymor canolig a thymor hir cleifion |
| | | 4.2 | Nodi pryd y dylai hyfforddwyr atgyfeirio at ymarfer corff gynnwys eraill, ar wahân i'w cleifion, wrth osod nodau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 4.3 | Esbonio sut i ddefnyddio amcanion cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS) mewn rhaglen atgyfeirio at ymarfer corff |
| 5 | Deall sut i gynllunio rhaglen atgyfeirio at ymarfer corff gyda chleifion | 5.1 | Esbonio'r gwrtharwyddion absoliwt i ymarfer corff |
| | | 5.2 | Crynhoi egwyddorion allweddol dylunio rhaglenni atgyfeirio at ymarfer corff i gyflawni nodau tymor byr, tymor canolig a thymor hir, gan gynnwys trefn a strwythur y sesiynau |
| | | 5.3 | Disgrifio amrywiaeth o ymarferion/ gweithgareddau corfforol diogel ac effeithiol i ddatblygu:<br>• Ffitrwydd cardiofasgwlaidd<br>• Ffitrwydd y cyhyrau<br>• Hyblygrwydd<br>• Sgiliau echddygol<br>• Sefydlogrwydd craidd |
| | | 5.4 | Esbonio sut i gynnwys gweithgareddau corfforol fel rhan o ffordd o fyw cleifion i ategu sesiynau ymarfer corff |
| | | 5.5 | Nodi pryd y gallai fod yn briodol rhannu'r rhaglen gyda gweithwyr proffesiynol eraill |
| 6 | Deall sut i addasu rhaglen atgyfeirio at ymarfer corff gyda chleifion | 6.1 | Esbonio sut y gellir defnyddio egwyddorion hyfforddiant i addasu'r rhaglen lle:<br>• Nad yw amcanion yn cael eu cyflawni<br>• Mae amcanion newydd wedi'u nodi |
| | | 6.2 | Disgrifio systemau hyfforddi priodol a sut y'u defnyddir i ddarparu amrywiaeth a sicrhau bod rhaglenni'n parhau i fod yn effeithiol |
| | | 6.3 | Esbonio pam mae'n bwysig cadw cofnodion cywir o newidiadau, gan gynnwys y rhesymau dros y newid |
| | | 6.4 | Esbonio pryd y gall fod yn briodol rhannu newidiadau i raglenni atgyfeirio at ymarfer corff gyda gweithwyr proffesiynol eraill |
| 7 | Gallu casglu gwybodaeth am gleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff | 7.1 | Sefydlu perthynas â chleifion |
| | | 7.2 | Esbonio ei rôl a'i gyfrifoldebau ei hun i gleifion |
| | | 7.3 | Casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio rhaglen atgyfeirio at ymarfer corff gan ddefnyddio dulliau sy'n briodol i'r cleifion a'u cyflwr/cyflyrau |
| | | 7.4 | Dangos sensitifrwydd ac empathi tuag at gleifion a'r wybodaeth y maent yn ei darparu |
| | | 7.5 | Cofnodi'r wybodaeth gan ddefnyddio fformatau priodol mewn ffordd a fydd yn helpu i'w dadansoddi |
| | | 7.6 | Trin gwybodaeth gyfrinachol yn gywir |
| 8 | Gallu cytuno ar nodau gyda chleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff | 8.1 | Gweithio gyda chleifion i gytuno ar nodau tymor byr, tymor canolig a thymor hir sy'n briodol i'w hanghenion |
| | | 8.2 | Sicrhau bod amcanion: |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol<br>• Yn gyson ag arfer da'r diwydiant |
| | | 8.3 | Cytuno â chleifion ynghylch eu hanghenion a'u parodrwydd i gymryd rhan |
| 9 | Gallu cynllunio rhaglen atgyfeirio at ymarfer corff gyda chleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff | 9.1 | Cynllunio mesurau deilliannau penodol, camau cyflawni ac ymarferion/gweithgareddau corfforol sydd:<br>• Yn addas i gyflwr/cyflyrau meddygol, nodau a lefel ffitrwydd cleifion<br>• Yn gyson ag arfer da a dderbynnir |
| | | 9.2 | Sicrhau bod elfennau priodol o ffitrwydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen |
| | | 9.3 | Cymhwyso egwyddorion hyfforddiant sy'n briodol i gleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff a'u cyflwr/cyflyrau er mwyn helpu i gyflawni nodau tymor byr, tymor canolig a thymor hir |
| | | 9.4 | Cytuno ar ofynion y rhaglen gyda chleifion |
| | | 9.5 | Cytuno ar amserlen sesiynau gyda chleifion |
| | | 9.6 | Cytuno ar ddulliau gwerthuso priodol a dyddiadau adolygu gyda chleifion |
| | | 9.7 | Nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys defnyddio amgylcheddau nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer ymarfer corff |
| | | 9.8 | Cofnodi cynlluniau mewn fformat a fydd yn helpu cleifion a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig i roi'r rhaglen ar waith |
| | | 9.9 | Cytuno ar sut i gadw mewn cysylltiad â chleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff rhwng sesiynau |
| 10 | Gallu rheoli rhaglen atgyfeirio at ymarfer corff gyda chleifion | 10.1 | Monitro integreiddio rhaglen atgyfeirio at ymarfer corff a gweithgarwch corfforol ehangach |
| | | 10.2 | Rhoi dewisiadau amgen i'r ymarferion/gweithgareddau corfforol a raglennwyd os na all cleifion gymryd rhan fel y cynlluniwyd |
| | | 10.3 | Monitro cynnydd cleifion gan ddefnyddio dulliau priodol |
| | | 10.4 | Ysgrifennu llythyr at weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn nodi gwybodaeth briodol ac yn defnyddio iaith gywir |
| 11 | Gallu adolygu cynnydd gyda chleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff | 11.1 | Esbonio diben adolygu cynnydd i gleifion |
| | | 11.2 | Adolygu nodau tymor byr, tymor canolig a thymor hir gyda chleifion ar adegau y cytunir arnynt yn y rhaglen, gan ystyried unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau |
| | | 11.3 | Annog cleifion i roi eu barn eu hunain ar gynnydd |
| | | 11.4 | Defnyddio dulliau gwerthuso addas a fydd yn helpu i adolygu cynnydd cleifion yn erbyn nodau a data sylfaenol cychwynnol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 11.5 | Rhoi adborth i gleifion yn ystod eu hadolygiad sy'n debygol o gryfhau eu cymhelliant a'u hymlyniad |
| | | 11.6 | Cytuno ar ddeilliannau adolygiadau gyda chleifion a gweithwyr proffesiynol eraill |
| | | 11.7 | Cadw gofnod cywir o adolygiadau a'u deilliannau |
| 12 | Gallu addasu rhaglen atgyfeirio at ymarfer corff gyda chleifion | 12.1 | Nodi nodau ac ymarferion/gweithgareddau corfforol y mae angen eu hailddiffinio neu eu haddasu |
| | | 12.2 | Cytuno ar addasiadau, camau ymlaen neu gamau yn ôl i ddiwallu anghenion cleifion er mwyn sicrhau'r cyflawniad gorau posibl |
| | | 12.3 | Nodi a chytuno ar unrhyw newidiadau i adnoddau ac amgylcheddau gyda'r claf |
| | | 12.4 | Cyflwyno addasiadau mewn ffordd sy'n briodol i gleifion, eu hanghenion a'u cyflwr/cyflyrau meddygol |
| | | 12.5 | Cofnodi newidiadau i gynlluniau'r rhaglen er mwyn ystyried addasiadau |
| | | 12.6 | Monitro effeithiolrwydd addasiadau a diweddaru'r rhaglen yn ôl yr angen |


Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Deall Cyflyrau Meddygol ar gyfer Atgyfeirio at Ymarfer Corff | | |
| Rhif yr Uned: | R/503/7492 | | |
| Lefel: | 4 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 35 | | |
| Credydau: | 7 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr o nodweddion clinigol cyflyrau meddygol sy'n berthnasol i raglenni atgyfeirio at ymarfer corff a'r dulliau a dderbynnir ar gyfer trin a rheoli cyflyrau meddygol sy'n berthnasol i raglenni atgyfeirio at ymarfer corff. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall nodweddion clinigol cyflyrau meddygol sy'n berthnasol i raglenni atgyfeirio at ymarfer corff | 1.1 | Disgrifio pathoffisioleg, ac arwyddion a symptomau clinigol cyflyrau meddygol penodol |
| | | 1.2 | Disgrifio sut mae pathoffisioleg, ac arwyddion a symptomau clinigol yn newid gyda datblygiad cyflyrau meddygol penodol |
| | | 1.3 | Disgrifio achosion cyffredin cyflyrau meddygol penodol |
| 2 | Gwybod y dulliau a dderbynnir ar gyfer trin a rheoli cyflyrau meddygol sy'n berthnasol i raglenni atgyfeirio at ymarfer corff | 2.1 | Gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau credadwy, nodi'r ymyriadau cyffuriau, llawfeddygol neu therapiwtig cyffredin a ddefnyddir i drin cyflyrau meddygol penodol |
| | | 2.2 | Disgrifio effeithiau a ddymunir, a sgil-effeithiau, meddyginiaethau cyffredin ar ymateb ymarfer corff cleifion ar gyfer cyflyrau meddygol penodol |
| | | 2.3 | Disgrifio sut y gall addasiadau i ffordd o fyw, gan gynnwys newidiadau o ran maeth a gweithgarwch corfforol, gael eu defnyddio yn ogystal â therapïau meddygol ar gyfer cyflyrau meddygol penodol |
| 3 | Deall y berthynas rhwng ymarfer corff a chyflyrau meddygol penodol lle gwneir atgyfeiriad at ymarfer corff | 3.1 | Esbonio risgiau ymarfer corff i gleifion â chyflyrau meddygol penodol |
| | | 3.2 | Esbonio sut y gall ymarfer corff fod o fudd i gleifion â chyflyrau meddygol penodol |
| | | 3.3 | Gwerthuso risgiau ymarfer corff yn erbyn y manteision i gleifion â chyflyrau meddygol penodol |
| 4 | Deall sut i drefnu rhaglenni ymarfer corff diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion â chyflyrau meddygol penodol lle gwneir atgyfeiriad at ymarfer corff | 4.1 | Amlinellu cyfyngiadau a chanllawiau ymarfer corff ar gyfer cleifion â chyflyrau meddygol penodol |
| | | 4.2 | Nodi ystyriaethau ar gyfer ymarfer corff wrth ymdrin â chydafiacheddau |



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Hyfforddwyr Atgyfeirio at Ymarfer Corff | | |
| Rhif yr Uned: | Y/503/7493 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 14 | | |
| Credydau: | 2 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr o rôl a phwysigrwydd atgyfeirio at ymarfer corff a pholisïau a dogfennau allweddol cysylltiedig a rolau a chyfrifoldebau o fewn cynllun atgyfeirio at ymarfer corff. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall rôl a phwysigrwydd atgyfeirio at ymarfer corff a pholisïau a dogfennau allweddol cysylltiedig | 1.1 | Esbonio rôl atgyfeirio at ymarfer corff yn y diwydiant ffitrwydd a'r sector iechyd |
| | | 1.2 | Gwerthuso rôl gyffredinol ymarfer corff wrth leihau'r risg o glefydau a rheoli cyflyrau |
| | | 1.3 | Amlinellu pwyntiau allweddol polisïau'r llywodraeth sy'n ymwneud â chynlluniau atgyfeirio at ymarfer corff |
| | | 1.4 | Amlinellu'r pwyntiau allweddol o'r Safonau Proffesiynol a Gweithredol ar gyfer atgyfeirio at ymarfer corff |
| 2 | Deall rolau a chyfrifoldebau o fewn cynllun atgyfeirio at ymarfer corff | 2.1 | Esbonio rolau gweithwyr meddygol, iechyd a ffitrwydd proffesiynol mewn cynllun atgyfeirio at ymarfer corff |
| | | 2.2 | Diffinio cwmpas ymarfer gweithwyr ffitrwydd proffesiynol a'r ffiniau rhyngbroffesiynol o fewn cynllun atgyfeirio at ymarfer corff |
| | | 2.3 | Disgrifio sut i ymdrin â chlaf sydd â chyflwr meddygol y tu hwnt i gwmpas ymarfer yr hyfforddwr atgyfeirio at ymarfer corff |
| | | 2.4 | Esbonio pryd i atgyfeirio at weithwyr proffesiynol eraill gan gynnwys yr atgyfeiriwr gwreiddiol |
| | | 2.5 | Esbonio sut i benderfynu bod atgyfeiriadau yn 'amhriodol' |
| | | 2.6 | Esbonio pwysigrwydd peidio â derbyn claf y mae ei ymarferydd meddygol neu weithiwr iechyd proffesiynol wedi gwrthod ei atgyfeirio at ymarfer corff |
| | | 2.7 | Esbonio pwysigrwydd cyfathrebu rhyngbroffesiynol effeithiol |
| 3 | Deall y systemau gofal iechyd cyfredol yn y Deyrnas Unedig | 3.1 | Disgrifio rôl Grwpiau Comisiynu Clinigol |
| | | 3.2 | Nodi dogfennau/polisïau allweddol y gwasanaeth iechyd a'u heffaith ar y system gofal iechyd o ran atgyfeirio at ymarfer corff |
| 4 | Deall y broses atgyfeirio at ymarfer corff | 4.1 | Esbonio'r broses o dderbyn claf a atgyfeiriwyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol |
| | | 4.2 | Disgrifio'r protocol ar gyfer ymgynghoriad cychwynnol â chlaf gyda'r hyfforddwr atgyfeirio at ymarfer corff |



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 4.3 | Disgrifio egwyddorion monitro cleifion a chasglu data |
| | | 4.4 | Amlinellu'r gofynion meddygol-gyfreithiol sy'n berthnasol i rôl hyfforddwr atgyfeirio at ymarfer corff |
| 5 | Deall egwyddorion a gweithdrefnau cadw cofnodion | 5.1 | Esbonio sut mae cyfrinachedd cleifion yn cael ei gynnal mewn cynllun atgyfeirio at ymarfer corff |
| | | 5.2 | Esbonio'r cysyniad o ddiogelu data |
| | | 5.3 | Esbonio ystyr dilysrwydd a dibynadwyedd o ran mesur technegau a deilliannau |
| | | 5.4 | Esbonio sut i werthuso ansawdd a dibynadwyedd tystiolaeth |
| 6 | Deall y cysyniad o ddull sy'n canolbwyntio ar y claf | 6.1 | Esbonio sut y gall cyfathrebu geiriol a dieiriau, ymddangosiad ac iaith y corff ddylanwadu ar ganfyddiad cleifion |
| | | 6.2 | Disgrifio amrywiaeth o sgiliau ymgynghori |
| | | 6.3 | Esbonio'r term 'ymddygiad iechyd' |
| | | 6.4 | Esbonio locws rheolaeth |
| 7 | Deall sut i fonitro cynllun atgyfeirio at ymarfer corff llwyddiannus | 7.1 | Disgrifio technegau i fonitro llwyddiant ar gyfer y claf a'r cynllun |
| | | 7.2 | Disgrifio pwysigrwydd monitro a gwerthuso o ran atgyfeirio at ymarfer corff |
| 8 | Deall egwyddorion pennu lefel risg wrth atgyfeirio at ymarfer corff | 8.1 | Disgrifio egwyddorion pennu lefel risg |
| | | 8.2 | Esbonio sut mae dulliau pennu risg yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd wrth atgyfeirio at ymarfer corff |

Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Hyfforddi ymarfer corff gyda chleifion sydd wedi'u hatgyfeirio |
| Rhif yr Uned: | L/503/7491 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 58 |
| Credydau: | 9 |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr ynghylch sut i hyfforddi ymarfer corff i gleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff a sut i addasu ymarfer corff i ddiwallu anghenion cleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff. | |

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall sut i hyfforddi ymarfer corff i gleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff | 1.1 | Esbonio pwysigrwydd cyfathrebu geiriol a dieiriau wrth hyfforddi cleifion |
| | | 1.2 | Disgrifio sut i addasu cyfathrebu i ddiwallu anghenion cleifion |
| | | 1.3 | Gwerthuso gwahanol ddulliau o gynnal cymhelliant cleifion, yn enwedig pan fydd cleifion yn cael ymarferion yn anodd |
| | | 1.4 | Esbonio pwysigrwydd cywiro techneg cleifion |
| 2 | Deall sut i addasu ymarfer corff i ddiwallu anghenion cleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff | 2.1 | Esbonio pam mae'n bwysig monitro cynnydd unigol os oes mwy nag un claf yn cymryd rhan yn y sesiwn |
| | | 2.2 | Disgrifio gwahanol ddulliau o fonitro cynnydd cleifion yn ystod ymarfer corff, gan gynnwys grwpiau o gleifion |
| | | 2.3 | Esbonio pryd y gall fod angen addasu ymarferion wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion cleifion |
| | | 2.4 | Esbonio sut i addasu ymarfer corff/ystumiau ymarfer corff fel sy'n briodol i gleifion unigol a'r amgylchedd |
| | | 2.5 | Esbonio sut i addasu dwysedd ymarfer corff yn unol ag anghenion ac ymateb y claf |
| 3 | Deall sut i adolygu sesiynau atgyfeirio at ymarfer corff gyda chleifion | 3.1 | Esbonio pam y dylai hyfforddwyr atgyfeirio at ymarfer corff roi adborth i gleifion ar eu perfformiad yn ystod sesiwn |
| | | 3.2 | Esbonio pam y dylai cleifion gael y cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod eu perfformiad |
| | | 3.3 | Esbonio sut i roi adborth i gleifion ar eu perfformiad mewn ffordd sy'n gywir ond sy'n cynnal cymhelliant/ymrwymiad cleifion |
| | | 3.4 | Esbonio pam mae angen i gleifion weld eu cynnydd yn erbyn nodau |
| | | 3.5 | Esbonio pam mae angen gwybodaeth ar gleifion am ymarfer corff a gweithgarwch corfforol yn y dyfodol, dan oruchwyliaeth a heb oruchwyliaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Gallu paratoi adnoddau ar gyfer y sesiynau atgyfeirio at ymarfer corff | 4.1 | Dewis amrywiaeth o ymarferion/gweithgareddau corfforol i helpu cleifion i gyflawni eu hamcanion a'u nodau |
| | | 4.2 | Cael a pharatoi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer ymarferion/gweithgareddau corfforol wedi'u cynllunio |
| 5 | Gallu paratoi cleifion ar gyfer sesiynau atgyfeirio at ymarfer corff | 5.1 | Helpu cleifion i deimlo'n gartrefol yn yr amgylchedd ymarfer corff |
| | | 5.2 | Esbonio'r amcanion a'r ymarferion/gweithgareddau corfforol a gynlluniwyd i gleifion |
| | | 5.3 | Esbonio i gleifion sut mae amcanion ac ymarferion/gweithgareddau corfforol yn ategu eu nodau a sut maent yn briodol i'w cyflwr |
| | | 5.4 | Esbonio gofynion corfforol a thechnegol yr ymarferion/gweithgareddau corfforol a gynlluniwyd i gleifion |
| | | 5.5 | Esbonio i gleifion sut y gellir symud ymarfer corff/gweithgarwch corfforol a gynlluniwyd cam ymlaen neu gam yn ôl i gyflawni eu nodau |
| | | 5.6 | Asesu parodrwydd a chymhelliant cleifion i gymryd rhan yn yr ymarferion/gweithgareddau corfforol sydd wedi'u cynllunio |
| | | 5.7 | Trafod a dod i gytundeb â chleifion ar unrhyw newidiadau i'r ymarferion/gweithgareddau corfforol sydd wedi'u cynllunio sy'n:<br>• Cyflawni eu nodau a'u dewisiadau<br>• Eu galluogi i barhau i wneud cynnydd |
| | | 5.8 | Cofnodi newidiadau i raglenni atgyfeirio at ymarfer corff cleifion |
| 6 | Gallu hyfforddi ac addasu ymarferion sydd wedi'u cynllunio ar gyfer cleifion sydd wedi'u hatgyfeirio i wneud ymarfer corff | 6.1 | Defnyddio arddulliau ysgogi sydd:<br>• Yn addas i'r cleifion<br>• Yn gyson ag arfer da a dderbynnir |
| | | 6.2 | Esbonio diben a gwerth ymarferion cynhesu i gleifion |
| | | 6.3 | Darparu ymarferion cynhesu sy'n briodol i'r cleifion, yr ymarfer corff sydd wedi'i gynllunio a'r amgylchedd |
| | | 6.4 | Gwneud y defnydd gorau o'r amgylchedd lle mae'r cleifion yn gwneud ymarfer corff |
| | | 6.5 | Darparu cyfarwyddiadau, esboniadau ac arddangosiadau sy'n dechnegol gywir, yn ddiogel ac yn effeithiol |
| | | 6.6 | Addasu dulliau cyfathrebu geiriol a dieiriau i sicrhau bod cleifion yn deall yr hyn sy'n ofynnol |
| | | 6.7 | Sicrhau bod cleifion yn gallu gwneud yr ymarferion yn ddiogel ar eu pennau eu hunain |
| | | 6.8 | Dadansoddi perfformiad cleifion, gan ddarparu atgyfnerthu cadarnhaol drwyddi draw |
| | | 6.9 | Cywiro techneg ymarfer corff ar adegau priodol |
| | | 6.10 | Cymryd cam yn ôl neu gam ymlaen gydag ymarferion yn ôl perfformiad cleifion |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 6.11 | Monitro ac addasu dwysedd ymarfer corff fel y bo'n briodol i gleifion a'u cyflwr |
| 7 | Gallu dod â sesiynau atgyfeirio at ymarfer corff i ben | 7.1 | Caniatáu digon o amser i ddod â cham olaf y sesiwn i ben |
| | | 7.2 | Esbonio diben a gwerth gweithgareddau dadgynhesu i gleifion |
| | | 7.3 | Dewis gweithgareddau dadgynhesu yn ôl y math o ymarfer corff a'i ddwysedd, anghenion y cleifion a'r amgylchedd |
| | | 7.4 | Rhoi adborth ac atgyfnerthu cadarnhaol i gleifion |
| | | 7.5 | Esbonio i gleifion sut mae eu cynnydd yn cysylltu â'u nodau |
| | | 7.6 | Rhoi cyfle i gleifion ofyn cwestiynau a thrafod eu perfformiad |
| | | 7.7 | Rhoi gwybod i gleifion am gyfleoedd ymarfer corff a gweithgarwch corfforol yn y dyfodol |
| | | 7.8 | Gadael yr amgylchedd mewn cyflwr sy'n addas i'w ddefnyddio yn y dyfodol |
| 8 | Gallu adolygu sesiynau atgyfeirio at ymarfer corff | 8.1 | Adolygu deilliannau gweithio gyda chleifion, gan gynnwys eu hadborth |
| | | 8.2 | Nodi:<br>• Pa mor dda y gwnaeth y sesiynau gyflawni nodau cleifion<br>• Pa mor effeithiol ac ysgogol oedd y berthynas â chleifion<br>• Pa mor dda oedd yr arddulliau hyfforddi yn cyfateb i anghenion cleifion |
| | | 8.3 | Nodi sut i wella ymarfer personol |
| | | 8.4 | Esbonio gwerth ymarfer myfyriol |

Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Anatomeg a ffisioleg ar gyfer ymarfer corff ac iechyd | | |
| Rhif yr Uned: | A/600/9051 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 43 | | |
| Credydau: | 6 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr o'r galon a'r system gylchredol a'i pherthynas ag ymarfer corff ac iechyd a'r system gyhyrysgerbydol a'i pherthynas ag ymarfer corff. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall y galon a'r system gylchredol a'i pherthynas ag ymarfer corff ac iechyd | 1.1 | Esbonio swyddogaeth falfiau'r galon |
| | | 1.2 | Disgrifio cylchrediad y galon |
| | | 1.3 | Esbonio effaith prosesau clefyd ar strwythur a swyddogaeth pibellau gwaed |
| | | 1.4 | Esbonio effeithiau tymor byr a thymor hir ymarfer corff ar bwysedd gwaed, gan gynnwys effaith Valsalva |
| | | 1.5 | Esbonio manteision cardiofasgwlaidd a risgiau hyfforddiant gwytnwch/aerobig |
| | | 1.6 | Diffinio dosbarthiadau pwysedd gwaed a risgiau iechyd cysylltiedig |
| 2 | Deall y system gyhyrysgerbydol a'i pherthynas ag ymarfer corff | 2.1 | Esbonio strwythur cellau ffeibrau'r cyhyrau |
| | | 2.2 | Disgrifio theori ffilamentau llithro |
| | | 2.3 | Esbonio effeithiau gwahanol fathau o ymarferion ar wahanol fathau o ffeibrau'r cyhyrau |
| | | 2.4 | Nodi a lleoli mannau cysylltu cyhyrau ar gyfer prif gyhyrau'r corff |
| | | 2.5 | Enwi, lleoli ac esbonio swyddogaeth cyhyrau ysgerbydol sy'n ymwneud â gweithgarwch corfforol |
| | | 2.6 | Nodi'r echeli a'r planau anatomegol o ran gweithredoedd y cymalau a gwahanol ymarferion |
| | | 2.7 | Esbonio gweithredoedd y cyhyrau a achosir gan gyfangiadau grwpiau penodol o gyhyrau |
| | | 2.8 | Disgrifio cymalau/strwythur cymalau o ran amrywiaeth o symudiadau a'r risg o anafiadau |
| | | 2.9 | Disgrifio potensial symudiad y cymalau a gweithredoedd y cymalau |
| | | 2.10 | Disgrifio strwythur gwregys y pelfis a chyhyrau a ligamentau cysylltiedig |
| 3 | Deall sefydlogrwydd ystumiol a chraidd | 3.1 | Disgrifio strwythur a swyddogaeth ligamentau sefydlogi a chyhyrau'r asgwrn cefn |
| | | 3.2 | Disgrifio newidiadau yn y cyhyrau lleol a all ddigwydd oherwydd sefydlogi annigonol |
| | | 3.3 | Esbonio effeithiau posibl braster yr abdomen ac ystum gwael ar effeithlonrwydd symud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 3.4 | Esbonio'r problemau posibl a all ddigwydd o ganlyniad i ystumiau gwyrdroëdig |
| | | 3.5 | Esbonio effaith ymarferion i sefydlogi'r craidd a'r potensial ar gyfer anafiadau/gwaethygu problemau |
| | | 3.6 | Esbonio manteision a risgiau'r mathau canlynol o ymestyn a sut y'u defnyddir:<br>• Statig (goddefol a gweithredol)<br>• Dynamig<br>• Hwyluso niwrogyhyrol propriodderbyniol |
| 4 | Deall y system nerfol a'i pherthynas ag ymarfer corff | 4.1 | Disgrifio rolau penodol:<br>• Y system nerfol ganolog (CNS)<br>• Y system nerfol ymylol (PNS) gan gynnwys systemau somatig ac awtonomig |
| | | 4.2 | Disgrifio rheolaeth nerfol a throsglwyddo ysgogiadau nerfol |
| | | 4.3 | Disgrifio strwythur a swyddogaeth niwron |
| | | 4.4 | Esbonio rôl uned echddygol |
| | | 4.5 | Esbonio'r broses o recriwtio unedau echddygol ac arwyddocâd maint uned echddygol a nifer ffibrau'r cyhyrau |
| | | 4.6 | Esbonio swyddogaeth propriodderbynwyr y cyhyrau a'r atgyrch ymestyn |
| | | 4.7 | Esbonio ataliad cilyddol a'i berthnasedd i ymarfer corff |
| | | 4.8 | Esbonio'r addasiadau niwrogyhyrol sy'n gysylltiedig ag ymarfer corff/hyfforddiant |
| | | 4.9 | Esbonio manteision gwell cydlynu/effeithlonrwydd niwrogyhyrol ar gyfer perfformiad ymarfer corff |
| 5 | Deall y system endocrin a'i pherthynas ag ymarfer corff ac iechyd | 5.1 | Disgrifio swyddogaethau'r system endocrin |
| | | 5.2 | Nodi prif chwarennau'r system endocrin |
| | | 5.3 | Esbonio swyddogaeth hormonau gan gynnwys:<br>• Hormonau tyfu<br>• Hormonau thyroid<br>• Corticosteroidau<br>• Catecholaminau<br>• Inswlin<br>• Glwcagon |
| 6 | Deall systemau egni a'u perthynas ag ymarfer corff | 6.1 | Nodi cyfraniad egni yn ôl:<br>• Hyd yr ymarfer corff/gweithgaredd sy'n cael ei wneud<br>• Y math o ymarfer corff/gweithgaredd sy'n cael ei wneud<br>• Dwysedd yr ymarfer corff/gweithgaredd sy'n cael ei wneud |
| | | 6.2 | Nodi sgil-gynhyrchion y tair system egni a'u harwyddocâd o ran blinder y cyhyrau |



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 6.3 | Disgrifio effaith hyfforddiant gwytnwch/dulliau hyfforddi uwch ar ddefnyddio tanwydd ar gyfer ymarfer corff |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Cymhwyso egwyddorion maeth i raglen gweithgarwch corfforol | | |
| Rhif yr Uned: | L/600/9054 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 40 | | |
| Credydau: | 6 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr o egwyddorion maeth ac ymarfer a argymhellir yn genedlaethol o ran darparu cyngor maethol. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall egwyddorion maeth | 1.1 | Disgrifio strwythur a swyddogaeth y system dreulio |
| | | 1.2 | Esbonio ystyr termau maeth allweddol, gan gynnwys:<br>• Deiet<br>• Bwyta'n iach<br>• Maeth<br>• Deiet cytbwys |
| | | 1.3 | Disgrifio swyddogaeth a metabolaeth:<br>• Maethynnau macro<br>• Maethynnau micro |
| | | 1.4 | Esbonio'r prif grwpiau bwyd a'r maethynnau y maent yn eu cyfrannu at y deiet |
| | | 1.5 | Nodi gwerth caloriffig maethynnau |
| | | 1.6 | Esbonio'r derminoleg gyffredin a ddefnyddir ym maes maeth gan gynnwys:<br>• Gwerthoedd cyfeirio dietegol y DU (DRV)<br>• Lwfans dyddiol a argymhellir (RDA)<br>• Cymeriant dyddiol a argymhellir (RDI)<br>• Y Mynegai Glycemig |
| | | 1.7 | Dehongli gwybodaeth labelu bwyd |
| | | 1.8 | Esbonio pwysigrwydd paratoi bwyd iach |
| | | 1.9 | Esbonio'r berthynas rhwng maeth, gweithgaredd corfforol, cyfansoddiad y corff ac iechyd gan gynnwys:<br>• Cysylltiadau â chlefydau / ffactorau risg clefydau<br>• Colesterol<br>• Mathau o fraster yn y deiet |
| 2 | Deall canllawiau allweddol o ran maeth | 2.1 | Nodi'r amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a chyrff proffesiynol sy'n ymwneud â maes maeth |
| | | 2.2 | Esbonio'r cyngor allweddol ar fwyta'n iach sy'n sail i ddeiet iach |
| | | 2.3 | Disgrifio egwyddorion maethol a nodweddion allweddol y model/canllaw bwyd cenedlaethol |
| | | 2.4 | Diffinio maint dognau yng nghyd-destun y model/canllaw bwyd cenedlaethol |
| | | 2.5 | Esbonio sut i gael gafael ar ffynonellau dibynadwy o wybodaeth faethol |



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 2.6 | Gwahaniaethu rhwng gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth a honiadau marchnata di-sail cyflenwyr |
| 3 | Deall arferion a argymhellir yn genedlaethol o ran rhoi cyngor maethol | 3.1 | Esbonio ffiniau rolau proffesiynol o ran cynnig cyngor maethol i gleientiaid |
| | | 3.2 | Esbonio pwysigrwydd cyfathrebu risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â mympwyon colli pwysau a deietau poblogaidd i gleientiaid |
| | | 3.3 | Gwerthuso'r goblygiadau posibl o ran iechyd a pherfformiad yn sgil cyfyngu ar egni yn ddifrifol, colli pwysau a magu pwysau |
| | | 3.4 | Nodi cleientiaid sy'n wynebu risg o ddiffygion maethol |
| | | 3.5 | Esbonio sut y gall arferion dietegol diwylliannol a chrefyddol ddylanwadu ar gyngor maethol |
| | | 3.6 | Disgrifio diogelwch, effeithiolrwydd a gwrtharwyddion sy'n ymwneud ag ychwanegu proteinau a fitaminau |
| | | 3.7 | Esbonio pam y dylid atgyfeirio dadansoddiad dietegol manwl neu gymhleth sy'n cynnwys newid dietegol sylweddol at Ddeietegydd Cofrestredig bob amser |
| 4 | Deall y berthynas rhwng maeth a gweithgarwch corfforol | 4.1 | Diffinio rôl carbohydrad, braster a phrotein fel tanwydd ar gyfer cynhyrchu egni aerobig ac anaerobig |
| | | 4.2 | Esbonio elfennau gwariant egni a'r hafaliad cydbwysedd ynni |
| | | 4.3 | Esbonio sut i amcangyfrif y Gyfradd Metabolaeth Waelodol (BMR) |
| | | 4.4 | Esbonio sut i amcangyfrif gofynion egni yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch corfforol a ffactorau perthnasol eraill |
| | | 4.5 | Nodi gwariant egni ar gyfer gwahanol weithgareddau corfforol |
| | | 4.6 | Gwerthuso gofynion maethol ac anghenion hydradu cleientiaid sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol |
| 5 | Deall sut i gasglu gwybodaeth sy'n ymwneud â maeth | 5.1 | Esbonio pam mae'n bwysig cael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan gleientiaid cyn casglu gwybodaeth faethol |
| | | 5.2 | Disgrifio'r wybodaeth y mae angen ei chasglu i gynnig cyngor maethol i gleientiaid |
| | | 5.3 | Esbonio goblygiadau cyfreithiol a moesegol casglu gwybodaeth faethol |
| | | 5.4 | Disgrifio gwahanol fformatau ar gyfer cofnodi gwybodaeth faethol |
| | | 5.5 | Esbonio pam mae cyfrinachedd yn bwysig wrth gasglu gwybodaeth faethol |
| | | 5.6 | Disgrifio materion a all fod yn sensitif wrth gasglu gwybodaeth faethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 5.7 | Esbonio gwahanol ddulliau y gellir eu defnyddio i fesur cyfansoddiad y corff a risg iechyd o ran pwysau |
| 6 | Deall sut i ddefnyddio gwybodaeth faethol | 6.1 | Disgrifio dulliau asesu dietegol sylfaenol |
| | | 6.2 | Esbonio sut i ddadansoddi a dehongli gwybodaeth sydd wedi'i chasglu fel y gellir nodi anghenion a nodau maethol cleientiaid gan gyfeirio at argymhellion y model/canllaw bwyd cenedlaethol |
| | | 6.3 | Disgrifio sut i ddehongli gwybodaeth a geir o ddulliau a ddefnyddir i asesu cyfansoddiad y corff a risg iechyd mewn perthynas â phwysau |
| | | 6.4 | Esbonio sut i ddatgelu gwybodaeth a gesglir a 'chanlyniadau' i gleientiaid mewn modd sensitif |
| | | 6.5 | Esbonio sut i nodi arwyddion a symptomau patrymau bwyta annormal a phatrymau bwyta iach |
| | | 6.6 | Disgrifio nodweddion allweddol nodyn canllaw'r diwydiant ar 'Rheoli defnyddwyr yr amheuir bod ganddynt anhwylderau bwyta' |
| | | 6.7 | Esbonio'r amgylchiadau pan y dylid argymell bod cleient yn ymweld â'i feddyg teulu o ran y posibilrwydd o gael ei atgyfeirio at Ddeietegydd Cofrestredig |
| 7 | Deall egwyddorion gosod nodau maethol gyda chleientiaid | 7.1 | Esbonio sut i gymhwyso egwyddorion gosod nodau wrth gynnig cyngor maethol |
| | | 7.2 | Esbonio sut i drosi nodau maethol yn gyngor sylfaenol ar fwyta'n iach sy'n adlewyrchu canllawiau cenedlaethol presennol |
| | | 7.3 | Esbonio pan y dylai pobl heblaw'r cleient fod yn gysylltiedig â gosod nodau maethol |
| | | 7.4 | Diffinio pa bobl eraill a allai fod yn gysylltiedig â gosod nodau maethol |
| | | 7.5 | Nodi'r rhwystrau a all atal cleientiaid rhag cyflawni eu nodau maethol |
| | | 7.6 | Esbonio sut i gymhwyso strategaethau ysgogol sylfaenol i annog bwyta'n iach ac atal diffyg cydymffurfio neu lithro'n ôl |
| | | 7.7 | Esbonio'r angen i ailystyried cyfansoddiad cyrff cleientiaid a pharamedrau iechyd perthnasol eraill ar gamau y cytunwyd arnynt yn y rhaglen |
| 8 | Gallu casglu a dadansoddi gwybodaeth faethol | 8.1 | Casglu gwybodaeth sydd ei hangen i roi cyngor i gleientiaid ar fwyta'n iach |
| | | 8.2 | Cofnodi gwybodaeth am gleientiaid a'u nodau maethol mewn fformat cymeradwy |
| | | 8.3 | Dadansoddi gwybodaeth sydd wedi'i chasglu, gan gynnwys anghenion a dewisiadau maethol o ran statws a nodau maethol presennol cleientiaid |
| 9 | Gallu cymhwyso egwyddorion maeth i raglen gweithgarwch corfforol | 9.1 | Cyrchu a defnyddio ffynonellau credadwy o wybodaeth a chyngor addysgol wrth sefydlu nodau maethol gyda chleientiaid |
| | | 9.2 | Dylunio a chytuno ar nodau maethol sy'n gydnaws â'r dadansoddiad, arfer da a dderbynnir a chanllawiau cenedlaethol |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 9.3 | Sicrhau bod y nodau maethol yn cefnogi ac yn integreiddio ag elfennau eraill y rhaglen |
| | | 9.4 | Cytuno ar bwyntiau adolygu gyda'r cleientiaid |
| | | 9.5 | Adolygu dealltwriaeth y cleientiaid o sut i ddilyn y cyngor maethol fel rhan o'u rhaglen gweithgarwch corfforol |
| | | 9.6 | Monitro, gwerthuso ac adolygu cynnydd cleientiaid tuag at eu nodau maethol |



## Gofynion o ran Staff

### Gofynion ar gyfer Tiwtoriaid/Hyfforddwyr

Bydd gofyn i diwtoriaid sy'n cyflwyno'r cymhwyster feddu ar gymhwyster addysgu neu fod yn gweithio tuag ato. Gall hyn gynnwys cymwysterau fel Lefelau 3, 4 neu 5 mewn Addysg a Hyfforddiant, neu Dystysgrif mewn Addysg. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau addysgu eraill wrth wneud cais. Rhaid i diwtoriaid hefyd allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector.

### Gofynion ar gyfer Aseswyr

Bydd gofyn i aseswyr feddu ar gymhwyster asesu perthnasol, neu fod yn gweithio tuag ato. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau fel:

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol

Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau asesu perthnasol eraill wrth wneud cais.
Bydd yn ofynnol i aseswyr sydd ond yn meddu ar Ddyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion a Phrosesau Asesu gwblhau rhaglen astudio ychwanegol i gyflawni'r unedau cymhwysedd perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer un o'r cymwysterau a restrir uchod.
Bydd yn ofynnol i benderfyniadau aseswyr dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster asesu gael eu cydlofnodi gan asesydd â chymwysterau addas.
Rhaid i aseswyr hefyd allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector.

### Gofynion ar gyfer Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

Dylai Sicrhawyr Ansawdd Mewnol feddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol, neu fod yn gweithio tuag ato. Gall hyn gynnwys cymwysterau fel V1 (D34 gynt), neu Ddyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau perthnasol eraill Sicrhau Ansawdd Mewnol wrth gyflwyno cais. Bydd yn ofynnol i benderfyniadau Sicrhawyr Ansawdd Mewnol dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol gael eu cydlofnodi gan Sicrhawr Ansawdd Mewnol â chymwysterau addas. Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol allu dangos cymhwysedd galwedigaethol.

## Geirfa ddefnyddiol o'r termau a ddefnyddir yn y fanyleb hon


Copyright © Focus Awards. All rights reserved

Mae'r tabl hwn yn esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir yng nghynnwys Manyleb Cymwysterau Focus Awards yn cael eu defnyddio. Nid yw pob term o reidrwydd yn cael ei ddefnyddio yn y cymhwyster hwn.

| | |
|---|---|
| Adolygu a diwygio | Edrych yn ôl dros y pwnc a gwneud cywiriadau neu newidiadau i wella eglurder neu arddangos dealltwriaeth yn well. |
| Allosod | Defnyddio gwybodaeth a data sy'n bodoli eisoes i ragfynegi deilliannau neu ganlyniadau posibl a allai fod y tu hwnt i'r 'norm' disgwyliedig. |
| Amcangyfrif | Defnyddio gwybodaeth, profiad a gwybodaeth berthnasol arall sy'n bodoli eisoes i nodi barn fras neu 'amcan gorau'. |
| Arddangos | Disgrifio neu esbonio gwybodaeth neu ddealltwriaeth drwy ddarparu enghreifftiau neu ddarluniau. |
| Barnu | Llunio barn neu wneud penderfyniad. |
| Coladu | Casglu a threfnu gwybodaeth mewn trefn resymegol (e.e. yn nhrefn yr wyddor, yn rhifiadol, yn gronolegol ayyb.). |
| Crynhoi | Cyfleu'r prif syniadau neu ffeithiau yn gryno. |
| Cyfiawnhau | Rhoi esboniad boddhaol ar gyfer gweithredoedd neu benderfyniadau. |
| Cyflawni | Ymgymryd â thasg neu broses i fodloni gofynion y cwestiwn. |
| Cymharu | Archwilio'r pynciau yn fanwl i nodi gwahaniaethau a thebygrwydd. |
| Cymharu'n feirniadol | Yn debyg i 'gymharu' uchod, ond gan ystyried unrhyw agweddau cadarnhaol a/neu gyfyngiadau sy'n codi o'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd a nodwyd. |
| Cymhwyso | Esbonio sut y gellir defnyddio gwybodaeth bresennol mewn sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| Cynllunio | Llunio a chofnodi (rhestru) dilyniant rhesymegol, trefnus o wybodaeth, adnoddau a chamau/digwyddiadau gofynnol sy'n galluogi cysyniad neu syniad i gael ei grisialu a'i gyfathrebu. |
| Dadansoddi | Torri'r pwnc yn rhannau unigol. Archwilio pob un, dangos sut maen nhw'n cyd-fynd â'i gilydd, p'un a ydyn nhw'n cefnogi ei gilydd a pham maen nhw'n bwysig. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol ychwanegu at eich dadansoddiad. |
| Dangos | Darparu tystiolaeth i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gywir. |
| Darparu | Nodi a chyflwyno gwybodaeth fanwl a chywir sy'n gysylltiedig â'r pwnc. |
| Datblygu... | Ehangu cynllun neu syniad drwy ychwanegu mwy o fanylion a/neu ddyfnder gwybodaeth. |
| Datgan | Rhoi'r prif bwyntiau'n glir mewn brawddegau neu baragraffau. |

| | |
|---|---|
| Dehongli | Esbonio ystyr rhywbeth. |
| Dewis | Gwneud dewis gwybodus at ddiben penodol neu ddeilliant/canlyniad gofynnol. |
| Diagnosio | Coladu ac ystyried tystiolaeth briodol i nodi achos neu darddiad sefyllfa neu broblem. |
| Disgrifio | Ysgrifennu am y pwnc, gan gyflwyno gwybodaeth fanwl yn rhesymegol. |
| Dod i gasgliadau... | Derbyn rheswm neu benderfyniad neu farn ar sail rhesymeg. |
| Dosbarthu | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| Egluro | Esbonio'r wybodaeth a gyflwynir yn glir ac yn gryno. |
| Esbonio | Cyflwyno gwybodaeth fanwl am y pwnc gyda rhesymau sy'n dangos sut neu pam y mae'n cael ei chynnwys. Dylech gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau hyn lle bo hynny'n bosibl. |
| Gwahaniaethu (esbonio) | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng 2 neu fwy o eitemau, adnoddau, darnau o wybodaeth. |
| Gwahaniaethu (nodi) | Nodi'r gwahaniaethau rhwng 2 neu fwy o ddadleuon, sefyllfaoedd neu bynciau. |
| Gweithredu | Esbonio sut i roi syniad neu gynllun ar waith. |
| Gwerthuso | Archwilio cryfderau a gwendidau, ystyried dadleuon o blaid ac yn erbyn, a/neu debygrwydd a gwahaniaethau. Asesu unrhyw dystiolaeth a gyflwynir o wahanol safbwyntiau a dod i gasgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol gefnogi'r gwerthusiad. |
| Myfyrio | Ystyried gweithredoedd, profiadau neu ddysgu a sut y gall y rhain effeithio ar ymarfer a/neu ddatblygiad proffesiynol. |
| Nodi | Adnabod ac enwi'r prif bwyntiau'n gywir. Efallai y bydd angen disgrifiad neu esboniad ychwanegol i gynorthwyo eglurder ac i briodoli hygrededd. |
| Trafod | Creu cyfrif manwl o ystod o safbwyntiau, barn neu bersbectif. |
| Ystyried | Meddwl yn feirniadol am sefyllfa, problem, gweithred neu benderfyniad a gyflwynir, a'i esbonio. Gweler hefyd 'esbonio' isod. |

## Adborth yr Asesydd

| | |
|---|---|
| **Enw'r Myfyriwr:** | |
| **Rhif y Myfyriwr:** | |
| **Cwrs:** | |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | |
|---|---|
| **Uned(au):** | |
| **Meini Prawf:** | |
| **Dyddiad:** | |
| **Sylwadau:** | |
| | |
| **Penderfyniad:** | |
| **Camau Pellach:** | |
| **Asesydd:** | |
| **Swydd:** | |

FOCUS AWARDS

# Adroddiad Sicrhau Ansawdd Mewnol

| |
|---|
| **Cymhwyster:** |

| **Asesydd:** | | | Sicrhawr Ansawdd Mewnol: | |
|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Ymgeisydd** | Uned(au) a samplwyd | Dulliau Asesu | Sylwadau | |
| | | | | |
| | | Llofnod y Sicrhawr Ansawdd Mewnol | | |
| | | Llofnod yr Asesydd | | |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved